# YR ADEILADWYR DOETH A FFÔL

Mathew 7:24-29



“Felly dyma sut bobl ydy'r rhai sy'n gwrando arna i ac yna'n gwneud beth dw i'n ddweud. Maen nhw fel dyn call sy'n adeiladu ei dŷ ar graig solet.



Daeth glaw trwm a llifogydd a gwyntoedd cryf i daro yn erbyn y tŷ hwnnw, ond wnaeth y tŷ ddim syrthio am fod ei sylfeini ar graig solet.



Ond mae pawb sy'n gwrando arna i heb wneud beth dw i'n ddweud yn debyg i ddyn dwl sy'n adeiladu ei dŷ ar dywod!



aeth glaw trwm a llifogydd a gwyntoedd cryf i daro yn erbyn y tŷ hwnnw, a syrthiodd y tŷ a chwalu'n llwyr.”

Pan oedd Iesu wedi gorffen dweud y pethau yma, roedd y tyrfaoedd yn rhyfeddu at beth roedd yn ei ddysgu. Roedd yn wahanol i'r arbenigwyr yn y Gyfraith – roedd ganddo awdurdod oedd yn gwneud i bobl wrando arno.

Copyright © 2025, Trueway Kids